"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD:

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] TACHWEDD, 1889. [RHIF 23.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Yr Heretic sydd o help	241
Y Calaniadur Cymreig	243
Fy Ffryndiau'n Nghraig Trebannws	244
Y meddyliau goreu mewn ychydig eiriau	246
Emyniaeth Gymreig	248
Y Crwydryn	250
Y Cyfarfod Chwarterol	253
Cartref	255
Nodynau Gwasgarog	256
Manion a Hanesion	262
Marwgofion	263

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:
ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU :—W.G., Pontyberem ; M.M., Aberdar.

☞ Carem weled ychydig yn rhagor o ffyddlondeb ar du ein derbynwyr yn nglyn â'r taliadau. Mae y treuliau yn fawrion, ac fe fydd yn hwylusdod mawr i ni gael y taliadau yn gryno ac yn brydlon.

☞ Anfoner pob gohebiaeth at y Golygydd,

J. HATHREN DAVIES,

CEFNCOED,

NR. MERTHYR TYDVIL.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Cefn* Post Office, ac yn enw J. H. Davies, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU :—Pris 3c., trwy'r post, 3½c. ; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

THE GRAMMAR SCHOOL, LLANYBYTHER.

HEAD MASTER :—REV. D. EVANS.

For further particulars, apply to Rev. D. Evans, Llanwnen, Llanybyther, R.S.O.

GWEITHIAU CHANNING.

GELLIR cael yr argraffiad rhad o'r uchod, yn rhad trwy y *post*, am 9c. yr un oddiwrth D. J. JONES,

MOUNT PLEASANT GARDEN, ABERDARE.

LLAWLYFR YR UNDODWR, PRIS 6CH.

Anfoner at D. Evans, Llanwnen, Llanybyther.

Y CALANIADUR CYMREIG.

Os dygwydd i rai o'n derbynwyr weled fod enwau wedi eu gadael allan, carem glywed oddiwrthynt er gosod y cyfryw yn ein rhifyn nesaf.

YR

YMOFYNYDD.

Cyfres Newydd.] TACHWEDD, 1889. [Rhif 23.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR HERETIC SYDD O HELP.

Er nad ydym yn dyfod wyneb-yn-ngwyneb â gwneuthurwyr duwiau gweledig, mae eilunaddolwyr, serch hyny, oddiamgylch i ni mor sylweddol, os nad mor wrthun, ag unrhyw rai a fuont yn ymwneyd â'u duwdod erioed, gan ei greu ef allan o fetel a'i lunio ef â'u dwylaw. Ond nid yw eilunaddolwyr yn Nghred yn creu eu heilun o fetel: creant eu Duw o'u meddwl eu hunain. Ni ddodant ef mewn coed neu bres neu haiarn neu faen: dodant ef mewn erthyglau ac haerdybiau a chatecismau a chredoau. Ond beth yw y gwahaniaeth rhwng gwneyd Duw â'ch dwylaw o ryw sylwedd a'i ddesgrifio ef o'ch meddwl a'ch pin ysgrifenu? Ac mae y gyfatebiaeth rhwng yr eilun-wneuthurwr a'r gred-wneuthurwr yn gyflawn, pan y cofiwn ni fod y ddau, fel rheol, wedi cael boddhad i'w hangenion trwy wneyd eu Duw yn atgas ac yn hyll. P'am y mae y pethau mwyaf salw a wnawd erioed wedi bod yn arddangosiadau o dduwdod, a'r pethau hyllaf a briodolwyd i unrhyw fod erioed y pethau y mae dynion wedi eu priodoli i Dduw? Nid oes dim a wnaeth dyn marwol erioed—na dim a ddychymygwyd ei fod yn bossibl iddo ei wneyd—dim o'r filiwnfed ran mor erchyll â'r gweithredoedd, y cynlluniau, a'r ordinhadau ag sydd wedi cael eu priodoli i Dduw. Trosglwyddai yr eilun-wneuthurwr ei ofn i'w dduwdod, a galwai ef ei ddigofaint, a gosodai gynnyrch ei nwyd ei hun i'r atgasbeth a wnaethai. Yr un fath y gwnai yr hen gredo-wneuthurwyr. Trosglwyddent i Dduw yr oll a deimlent o ofn a loes ac hunandyb a nwyd: a daeth y cynnyrch echrydus allan yn y Duw a allasai ddamnio hiliogaeth gyfan am drosedd dibwys menyw dibrofiad, yr Hwn a allasai faddeu y pechadur yn unig yn yr ystyriaeth o'r dyoddefiadau yr

aethpwyd trwyddynt gan waredwr diniwed, a'r Hwn, yn y diwedd, a guddia ei fethiantau mewn uffern ddiobaith a chywilyddus. Beth yw hyn wedi bod yn Nghred ond codi eilun anferth a salw?

A pha beth sy'n cymmeryd lle heddyw? Yr olygfa hynod a welir o eglwysi yn gwrthwynebu ac yn cospi yr ymgais i chwilio am Dduw gwell, yn gwrthwynebu ac yn cospi yr ymgais i ddianc rhag eilunod ac i gredu ynddo Ef mewn gwirionedd—ynddo ei Hun, fel yr amlyga ei Hun yn y pethau goreu ac uchaf a wnaeth Efe. Ni ellir goddef mwyach Dduw Calfiniaeth. Mae yn fath o ddemon—eilun wedi ei wneyd o elfenau hyll yn ei wneuthurwr—dyn. Ac etto, y dynion sydd yn gweled hyn ac yn ei ddweyd sydd mewn perygl o ysgymmundod. Ond bendithiwn Dduw am y proffwydi diweddar sydd yn ei geisio lle yn unig y ceir Ef—yn myd prydferth natur ac yn enaid puredig dyn sydd â'i ogwydd tuag i fyny yn barhaus; oblegyd yma mae y gwahaniaeth rhwng eilunaddoliaeth credo ac addoliad Dwyfol ffydd. Daw un oddiwrth y dyn ei hunan, fel delw o'i nwydau a'i ofnau, ond ffrwyth yw y llall o'r enaid yn ymagor i dderbyn cyfraniadau newyddion o hyd o oleuni a thlysni oddifry. Dyna y gwir wahaniaeth rhwng eilunaddoliaeth a Theistiaeth. Mae yr eilunaddolwr fel dyn sydd yn cymmeryd ei *slide* fechan liwiedig i ystafell dywell, yn ei gosod mewn llusern, ac yn tafiu y darlun ar y cynfas, a phan y mae wedi cael y darlun yn ddigon mawr, ac yn ddigon salw, mae yn galw Duw arno. A y Theist, o'r tu arall, i'r byd sylweddol i chwilio am Dduw, a byth yn gorphwys, y mae yn ei gael o hyd trwy ddyheu ac ymgodi allan o hono ei hunan. Yr hyn y mae'r eilunaddolwr yn ei baentio yw ei hunan, a 'dyw ei *slide* ef byth yn amrywio. Ond mae y Theist yn agored i dderbyn, a gall agweddau ei ffydd fod mor amrywiol â'r pethau rhyfeddol mewn natur—mor amrywiol â'i brofiadau ei hunan yn myned o dywyllwch barbaraidd i ryfeddol oleuni Duw.

Beth ond eilunaddoliaeth a barodd i'r Eglwys Wladol godi ei delw gerfiedig yn y ffurf o namyn un erthygl deugain—y rhai'n i gael eu dal a'u haddoli gan bawb ac am byth—y rhai'n i gael eu dysgu gan bob athraw crefyddol ar berygl cael ei daflu allan? Beth oedd hi ond eilunaddoliaeth pan yr elai dynion i gaethiwed at Dduw John Calfin, hyd nes y mae athrawon, hyd y nod heddyw, yn gorfod cydffurfio neu fyned? Yr wyf yn dweyd mai nid addoli Duw yw hyn: addoli dyn yw, a'r dyn heb fod ar ei oreu. Neu, beth yw ond eilunaddoliaeth pan y cymmer dynion y Beibl ac y dywedant am dano, "Yn hwn y mae genych ddarlun perffaith o Dduw, ag y rhaid i chwi lynu wrtho am byth?" Ond mae gwrthuni hyn yn gorphwys ar y wyneb, am fod genym yn y Beibl lawer darlun o Dduw yn hollol annhebyg i'w gilydd. Dylid gŵyrdroi y cyfan hyn, a dylid annog gwyr a gwragedd i feddwl eu goreu am Dduw, i fyned cyn belled ag y medrant oddiwrth yr hen eilunod; ac yn lle taro ar ei enau a chau allan y dyn sydd yn dyfod i ddangos i ni fod Duw yn well nag a freuddwydiasom erioed, dylem ei roesawu a'i gefnogi, a gwneyd yr hyn a wnelai yr hen eilunaddolwyr difrifol hyn, pan oedd pob un yn helpu ei gymmydog ac yn dweyd wrtho am gymmeryd cysur ac ymwroli. Garw na f'ai felly yn Nghred,

fel y gallasem galonogi y naill y llall yn y blaen, i ymwrthod ag eilunod a chredoau meirw, ac i geisio a gwasanaethu y Duw byw drosom ein hunain; ac etto, pe gwnelem hyn, ni wnaem ond yn unig myned yn ol at yr Iesu, dirgelwch mawr yr hwn oedd myned allan o hono ei hunan i chwilio am ei Dduw. Ond gwelwch y canlyniad—myned allan o hono ei hunan—ymgodi o holl nwydau dynol, o bob hunangarwch ac ofn; trwy hyny cafodd efe afael ar Dduw ynddo ei hunan, fel y gallwn ninau; ac felly yr oedd Duw a dyn yn un ynddo ef, megys y gall Duw a dyn fod yn un ynom ninau. Ac i hyn y dylem ni annog ein gilydd, fel y codom yn uwch ac yn uwch, nes y gwelom fod Duw o hyd uwch ein penau, yn well, yn fwy dysglaer, ac yn fwy cariadus nag a ddaeth i'n meddwl ni erioed am dano.

Mae yn drist dros ben i feddwl am y myrddiynau o eneidiau didwyll a gwir grefyddol ag ydynt, o eisieu y gefnogaeth hon, wedi myned i anialwch annghrediniaeth yn gyfangwbl, ac wedi ymosod ar yr hyn a wnaent, mewn amgylchiadau hapusach, ei addoli. Dyn fel Voltaire—yr oedd wedi cefnu ar grefydd am na chawsai neb i'w gefnogi ar yr ochr grefyddol. Crogodd yr Eglwys Gristionogol ef ar grogbren ei hanathema; er hyny, nid oedd Voltaire ond torwr eilunod salw. Y fath drueni nad oedd y dyn hwn, wrth gael ei yru i wrthryfel gan y sawl a ddylasent ei roesawu, yn gwybod dim am orfoledd cyfeillach grefyddol na dim am ddyddanwch gobaith crefyddol. Ond bydded i ni fod yn ddoethach yn ein dydd, a dweyd, "Rhwydd hynt" i'n brodyr sydd yn helpu i ennill i ni, nid eilun marw, ond Duw byw sydd yn ein codi ni o dywyllwch ofergoeledd i oleuni claer y Tragwyddol Gun.

P. H.

Y CALANIADUR CYMREIG.

TACHWEDD.

1, 1654, ganwyd yr enwog James Owen yn Mhlwyf Abernant, Sir Gaerfyrddin. Bu farw 1706.

2, 1783, Philip Dafydd, Penmain, yn pregethu ar Gefn-coed-y-Cymmer.

7, 1848, m. Parch. Thomas Price (Carnhuanawc).

10, 1654, David Jones yn fyfyriwr yn Rhydychain. Trowyd ef allan o Lanbadarn Odwyn yn 1662. Tybir ei fod yn frawd i John Jones, Llwynrhys.

11, 1809, m. y Parch. Philip Davies (mab Evan Davies, Llanybri,) yn Llundain. Bu'n weinidog Billericay 40 mlynedd (1745—85).

11, 1829, m. y Parch. Thomas Belsham.

12, 1768, m. y Parch. Timothy Thomas, awdwr "Y Wisg Wen Ddysglaer." Ganwyd yn y Tyhen, Caio, 1720.

13, 1830, m. Mrs. Mary Rees, Gelligron, yn 82 oed; gweddw J.R., Gellionen.

15, 1832, m. Hannah, merch y Parch. William Rees, y cyntaf a gladdwyd yn y Cwmmwrdu. (YMOF. 1875, t. 95).

16, 1782, ganwyd y Parch. John Jeremy. M. 1862.
16, 1775, Thomas Davies, Goetre, yn priodi Mary Beynon, Derry. Bu farw T.D. yn Pentre Sion, Mawrth 31, 1825, yn 76 oed.
19, 1850, m. y Parch. Thomas Williams, Tredemel, yn 45 oed. Tad y Parch. Thomas Williams, Merthyr. Mab Cilwernau, Plwyf Llanina.
18, 1844, m. Dafydd Jenkin Morgan, y cerddor enwog, yn 92 oed.
20, 1779, ganwyd y Parch. Timothy Davis yn y Plasbach, Ciliau.
23, 1858, dydd claddedigaeth Griffith Isaac, y cyntaf yn Mynwent Rhydygwin.

"O'r cantoedd mi yw'r cynta'—i orphwys
Ar arffed bedd yma;
Ond gwybydd y daw dydd da—
Duw o hono'm dihuna."

24, 1774, ganwyd Rhys Hywel Rhys o'r Faenor. Ymof. 1851.
26, 1857, m. y Parch. Rees Davies, Capelygroes. Oed 62.
26, 1857, m. y Parch. Rees Davies, Llandudoch, yn 72 oed. Gwel Ymof. 1863, t. 68.
27, 1824, m. William Moses (Gwilym Tew o Lan Taf), awdwr *Caine y Gog*, Ymof. 1876, t. 104.
28, 1779, ganwyd John Jenkins (Hengoed). Bu farw Mehefin 5, 1853.
28, 1860, m. y Parch. T. Davies, Evesham.
29, 1875, mobbiwyd y Parch. John Davies, Alltyplaca, yn Llanelli.
30, 1858, dyddiad ewyllys y Parch. Daniel Jones, Ll.D. Ganwyd tua 1781. Bu farw 1866.

GWELLIANT GWALLAU.

Medi.
7, 1826, m. y Parch. A. Edwards. Un o gydfyfyrwyr D.D.
9, 1876, m. Mrs. Thomas, Dol-llan.
28, 1771, m. y Parch. T.D., Caer*onen*.

FY FFRYNDIAU'N NGHRAIG TREBANNWS.

Fy ffryndiau'n Nghraig Trebannws, pa fodd mae dechreu cân
A rhoi mewn geiriau deimlad bardd sydd 'nawr â'i fron ar dân?
O! galon, pa'm y gwaedi nes clwyfo'r fynwes hon?
O! ddyfnion donau hiraeth pur, na rwygwch draeth y fron!

Fy ffryndiau'n Nghraig Trebannws, tu draw i'r Gwerydd Fôr
Sy'n byw mewn hedd wrth droed hen graig dragwyddol fel yr Ior,
Fy neigryn bach tryloew, paid syrthio o'm mynwes laith
Nes adlewyrchu'm delw brudd a'm drych mewn ingol aeth.

Fy ffryndiau'n Nghraig Trebannws, digrifwch a mwynhad
Erioed a welais yn eich plith tra yn eich cwmni mad;
Ni wyddoch ystyr golud na 'splander o un rhyw,
Ond mae dedwyddwch yn eich plith fel duwies hardd yn byw.

Fy ffryndiau'n Nghraig Trebannws, rhan ddedwydd ieuanc oes
A dreuliais yn eich cwmni heb esponiad i'r gair, "croes;"
Gyfeillion mynwesolaf, diragrith, didwyll, pur,
A'ch hoff ffyddlondeb yn ddisigl yn para fel y Gwir.

Fy ffryndiau'n Nghraig Trebannws, mud yw fy awen gain;
Oddiar y dydd gwahanwyd ni ni chlywyd fyth ei sain;
'Rwyf 'nawr yn mhlith estroniaid a'u dadwrdd ar bob cam,
Heb glywed gair na sill o bêr Ddwyfolaf iaith fy mam.

Fy ffryndiau'n Nghraig Trebannws, fe'm brathir fel â dagr
Heb fraint i siarad iaith fy nghân ond yr Ellmyniaith hagr;
O anwyl feirddion-ffryndiau! A oes yr un ar goll?
'Oes rhai yn ngwlad y Ddwyfol awdl, neu byw yr ydych oll?

Fy ffryndiau'n Nghraig Trebannws, adgofio'ch dawnus lef
Mewn barddol ymgom ddwg im' swyn fel breuddwyd am y nef!
Trysori 'rwyf eich anrheg a ges rhwng gwenau gant;
Mor gyssegredig yw i mi â darn o wenwisg sant!

Fy ffryndiau'n Nghraig Trebannws—meib unplyg, trwyadl, cun,
Nes credais nas gallesid cael erch frad mewn "bod o ddyn;"
Rhyw ffol gamsyniad dybryd a brofodd hyn i mi
Achoswyd gan ddylanwad hoff eich pur gymdeithas chwi.

Fy ffryndiau'n Nghraig Trebannws, a wnaethoch ddigio'n ffrom?
Ai wedi'r nodded, dyma'r tâl—*annarluniadwy sivm?*
Gyfeillion, rhy ardderchog eich natur, goeliaf fi,
I dywallt arnaf iasol lid digofaint oeddech chwi.

Fy ffryndiau'n Nghraig Trebannws, tra'n croesi'r weilgi ddofn
A chofio'r cam a wnes â chwi, meddiannwyd fi ag ofn!
Fel torf yr annuw'n dawnsio ddydd barn mewn gwgus restr,
Ha! felly'r tonau! credu wnes fod Duw yn siglo'r llestr!

Fy ffryndiau'n Nghraig Trebannws, er myn'd i wlad oedd bell
A chefnu arnoch, wedi'r oll, 'rwy'n sicr mai hyn oedd well;
Prydyddol lanc dibrofiad cyn hyn yr oedd fy hun,
Heb ddeall nac heb feddwl chwaith pa fodd dadblygu'r *dyn.*

Fy ffryndiau'n Nghraig Trebannws—addolwyr y Gwir Dduw
Yn dringo i gopa'r mynydd bân i ddysgu'r modd i fyw;
Addoli'n nghlyw brefiadau yr ŵyn a'r defaid mân
Yn siriol—nid â gwyneb trist—a phawb ag yspryd glân.

Fy ffryndiau'n Nghraig Trebannws, fan yma ceisiais I
Yn hogyn deunaw draethu gair yr Hollhanfodol Ri;
Mi gofiaf am y boreu hyd "doriad boreu'r wawr,"
Pan geisiodd llanc mor fach â mi i ddweyd am Dduw mor fawr!

Fy ffryndiau'n Nghraig Trebannws, yn iach, gyfeillion mad!
Chwychwi yn Nghymru fwyn, tra mi dan awyr dyeithr wlad;
Os na chawn gydgyfarfod cyn daw y daith i ben,
Cawn gydfarddoni megys cynt mewn gwlad â chliriach nen.

D. Ivor Davies.

Y MEDDYLIAU GOREU MEWN YCHYDIG EIRIAU.

Gan y Parch. J. Freeman Clarke, D.D.

LLYGREDIGAETH GYFANGWBL AC IACHAWDWRIAETH.

Dywed y credöau poblogaidd fod yn mhob dyn lygredigaeth etifeddiaethol a naturiol, ac fod y llygredigaeth hon yn gyflawn. Y mae yr Undodiaid wedi gwadu hyny. Yr ydym yn annghredu fod y fath beth a llygredigaeth gyfangwbl; ond yr ydym yn cyfaddef yr athrawiaeth o ddrwg etifeddiaethol, oblegyd fod ansoddau moesol neillduol yn cael eu trosglwyddo i lawr yn yr ymhenydd a'r gwaed, y rhai sydd etifeddiaethol yn y Cymro, y Ffrancwr, yr Almaenwr, yr Eidalwr, yr Arabiad, a'r Aifftiad. Os oes llygredigaeth etifeddiaethol ynom ni, y mae hyny yn beth anffortunus, nid yn fai. Ond er nad yw yn euogrwydd, y mae yn ddrwg moesol; y mae yn ddarostyngiad; y mae yn rhywbeth y mae arnom angen cael ein cadw rhagddo. Safwn mewn angen am gael maddeuant am wneyd yn wirfoddol yr hyn sydd gamsyniol: safwn mewn angen am faddeuant a glanhad oddiwrth lygredigaeth etifeddiaethol parhaus, oblegyd y mae yn beth caled iawn trwy ymdrech yr ewyllys yn unig i orchfygu tueddiadau sydd guddiedig yn y cymheiriant.

Y mae, gan hyny, mewn ystyr bennodol yn yr hon y gallwn ddweyd, yn wirioneddol fod y natur ddynol yn llygredig. Ond ni raid i ni gyfaddef ei bod yn gwbl lygredig, neu o leiaf fod y llif sydd yn ein cario at y drwg yn anorchfygol. Gallwn ei wrthwynebu, ac y mae bob amser ffordd i ddianc rhagddo, oblegyd y mae gan bob dyn ryw ddaioni neillduol ynddo; y mae gan bob dyn ryw allu moesol neillduol o'i eiddo ei hun; y mae gan bob dyn ryw ddylanwad da sydd yn ei arwain ef i fyny. Yn y dyn gwaethaf y mae rhyw olion o gydwybod, rhyw weddillion o hunan-barch, rhyw awydd i fyny, rhyw ddamcaniaeth niwlog o'r iawn trwy yr hwn y mae yn cynnal ei hunan. Y mae cam ynom oll, ond nid oes un dyn yn hollol ar gam.

Dywedir llawer rhagor yn nghylch pechod yn yr eglwysi uniongred nag yn ein heiddo ni: y mae dynion yn cael eu hanerch fel pechaduriaid anedifeiriol; cyffesant eu bod yn gwbl lygredig, ac heb ddim da ynddynt. Ond nid yw hyn yn cario rhyw lawer o ystyr gydag ef. Adroddir ystori am ddyn, yr hwn, mewn cwrdd gweddi, a haerodd mai efe oedd y penaf o bechaduriaid, heb ddim da ynddo. Wrth ddyfod allan, dywedodd ei gymmydog wrtho, "Ni wyddwn I ddim eich bod yn ddyn mor wir ddrwg. Pa fodd ydych yn llwyddo i gelu eich drygioni mor hir?" "Dyn drwg!" meddai y llall; "beth ydych yn ei olygu?" "Wel," ebe y llall mewn atebiad, "oni ddywedasoch gynau eich bod chwi yn un o'r dynion gwaethaf?" "Nid wyf yn waeth na'm cymmydogion," ebai y pechadur edifeiriol. Nid cyffesu ei bechodau ei hunan oedd, ond pechod yn gyffredin—pechod sydd yn perthyn i'r hil ddynol, am yr hwn nad oedd ef yn teimlo un cyfrifoldeb sylweddol. Y mae llawer o gyffesiadau o'r fath hyn i'w cael yn y byd. Gall dyn fod o nwydau drwg, yn feistrolgar, yn dwyllodrus mewn masnach, yn hunan-llochaidd, heb fod yn gofalu llawer am wirionedd, yn hoff o arian; ond nid pechodau eglwysig ydynt y rhai hyna, ac felly, nid yw yn aflonyddu ei hunan ond ychydig iawn yn eu cylch. Y mae yn ymfoddloni ar gyffesu ei bechodau yn gyffredinol, ac y mae yn gadael ei ffaeleddau neillduol heb eu chwilio, eu harholi, a'u profi.

Nid yw yr Undodiaid yn meddwl ei bod yn angenrheidiol aros a manylu gormod ar bechod yn y cyffredin, ond credant ei fod yn well nodi allan y gweithredoedd camsyniol ydym yn debyg o'u cyflawnu—pechodau cymdeithas, masnach, bywyd dirgel a chyhoeddus; pechodau pen heol, y parlwr, y gegin, y siop, yr esgynlawr. Nid oes gyda ni lawer i'w ddweyd am bechod Adda, Dafydd, neu am bechodau y Phariseaid Iuddewig a'r Saduceaid. Y mae y Phariseaid a'r Saduceaid yma; y maent ynom oll. Chwi a minau yw y Pedr sydd yn gwadu ei Feistr, y Judas sydd yn ei fradychu, y dysgybl gwan sydd yn ei annghofio ac yn ffoi oddiwrtho ef. Y Crist heddyw yw yr achos da allwn ni ei helpu neu ei rwystro yn mhob dyn neu fenyw allwn ni gynnorthwyo neu esgeuluso. Yr ydym yma i wneyd y byd yn well, ac mewn gwneyd felly, i dyfu a dyfod yn well ein hunain.

Dywedir fod Undodiaid yn dysgwyl cael eu hachub, neu eu cadw trwy eu gweithredoedd, oblegyd eu bod yn golygu gwneyd yr hyn sydd iawn; o herwydd eu bod yn arwain bywyd gweddus; o herwydd eu bod yn talu eu dyledion, ac yn barod i roddi i'r tlawd, ac ategu anturiaethau da. Prin y credwn ni mai cyfiawn yw hyn i'n henwad ni. Ni allaf fi gredu fod un bod dynol erioed wedi dychymygu fod ganddo ef hawl i'r nefoedd o ddedwyddwch, yn ol llaw, ar gyfrif unrhyw gymmaint o ddaioni a wnaeth yma. Ni ddarfu i un dyn yn ei gyflawn synwyr erioed ddysgwyl y buasai anfarwoldeb a bendigedigrwydd dyfodol i gael ei dalu fel dyled ddyledus iddo ef, neu o herwydd ei fod wedi gwneyd ei ddyledswydd mor dda yn y byd hwn. Ond os ydym yn credu fod Duw yn dda, ei fod Ef yn caru ei holl blant, gallwn ddweyd hyn—a dyma beth y mae Undodiaeth yn ei ddweyd—gallwn ddywedyd a chredu fod Duw yn rhoddi i ni, yn y byd arall, beth

bynag ydym yn addas i'w gael a'i fwynhau; fod dedwyddwch yn ymddybynu ar gymmeriad; ac o ganlyniad, yn ol cyfreithiau tragwyddol y greadigaeth foesol, dim ond y pur o galon fydd i weled Duw; dim ond y trugarog gaiff drugaredd; dim ond hunanoldeb sydd yn dwyn gwae a thrueni; cariad, boddlonrwydd, ac ewyllys dda sydd yn dwyn tangnefedd a boddlonrwydd.

Heb sancteiddrwydd, ni chaiff neb weled yr Arglwydd; y mae y sawl sydd yn gwneyd drwg yn etifeddu drwg yma, ac yn ol llaw. Os ydym yn ffyddlon, cywir, gonest, cariadus, nid ydym yn wir yn ennill nefoedd fel iawn neu eiddo hunanol ein hunain; ond trwy gyfreithiau tragwyddol y greadigaeth, yr ydym yn codi i uwch cyflwr yn gydraddol yn union i'r ffyddlondeb hwn; bydd i'r rhai sydd yn gwneyd da etifeddu da. Pan ddywed yr apostol, "Ac mi a welais y meirw, fychain a mawrion, yn sefyll gerbron Duw, a'r llyfr a agorwyd, a barnwyd y meirw yn ol eu gweithredoedd," credwn ni mai hyn a olygir: fod y cymmeriad y mae dyn yn ei ffurfio yma yn penderfynu ei gyflwr draw. Ond nid yw hyn yn dywedyd neu yn golygu ein bod yn hawlio un dedwyddwch fel ein hawl a'n genedigaeth-fraint, oddieithr mor bell ag y mae Duw ei Hunan wedi gwneyd hyny yn iawn. Nid yw hyn yn golygu y bydd i ni gael ein cadw trwy ein hunain, oddieithr fel y mae Duw ei Hunan wedi gwneyd daioni yn ammod iachawdwriaeth.

EMYNIAETH GYMREIG:

Sef traethawd buddugol yn Eisteddfod Dolgellau, 1887, *gan E. H. Jenkins (Ifan Afan), tud.* 124. *Pris* 1*s.*

Cynnwysa'r traethawd hwn lawer sydd yn ddyddorol ar agwedd bresenol ein hemynau. Nodir diffygion mewn corfan, mewn chwaeth, &c., &c., ac ychydig ragoriaethau. Dyma enghraifft o ddiffyg chwaeth:

"Tair, tair
Arglwyddes feichiog da eu gair,
Arfaeth, addewid, hefyd Mair,
Daeth tymp i esgor ar un awr,
Un mab a anwyd, tair gwraig rydd,
O b'le na bydd o'u rhyw un mawr!"

Dyfynir barn Awstin Fawr am yr hyn y dylai emyn fod fel "un hynod hapus;" sef "Mawl *i Dduw*, a mawl i Dduw *ar gân*" ond annghofir hyn cyn terfynu y traethawd, neu rywbeth tebyg iawn i hyny. Dyfynir sylw Emrys wrth adolygu "2,000 Emynau" S.R., ond nid gyda chymmeradwyaeth: "Mae pob Emynau *athrawiaethol*, hanesiol, ac ymarferol, y tu allan i gylch ein goddefiad." Nid oes ganddo fawr cymmeradwyaeth i "Salmau Iolo." Cydnebydd eu bod "yn *ddifrifol*

ofnadwy," ac fod rhai o honynt "yn cyfateb yr hyn y dywed" yr awdwr "fod yr oll o honynt—Salmau o Fawl." Wrth adolygu y llinellau hyn :—

> "Am ddangos yn ei fywyd Ef
> Y ffordd a'n dwg i deyrnas nef,"

sylwa : "Diddadl fod y llinellau hyn wedi eu hamcanu i awgrymu fod ymarweddiad perffaith yn arwain i'r nef; pan y mae yn eglur fod y ffordd hono wedi ei chau yn Eden. Ni agorwyd hi hyd yn hyn, ac ni wneir mwyach." Ceisia eu gwella fel hyn :—

> "Am ddangos yn *ei angeu* Ef
> Y ffordd a'n dwg i deyrnas nef;"

"Ond," meddai, "nid llinellau Undodaidd fuasent felly : wrth farw yr agorodd ein Gwaredwr ffordd i'n cadw. Mae yn syndod fod neb yn amheu ffaith mor eglur" (?) Dyma rai o'r sylwadau ar Salmau Iolo : "Dywed rhai eu bod 'yr adsain' goreu yn y Gymraeg o Salmau Dafydd, ond nis gallwn gydolygu â hyny. Mae Salmau Dafydd yn cynnwys llawer o gyfeiriadau at Iesu Grist fel Duw tragwyddol, ond ni cheir pethau felly yn Salmau Iolo. * * * Ni chredwn fod a fyno yr Ysbryd Glân â chymmaint a llinell o honynt. Eiddo Iolo ydynt oll."

Mae yn angen wrth spectols *made to order* i allu gweled hanner y pethau uchod ; spectol dallbleidiaeth grefyddol, spectol rhagfarn ac anwybodaeth. Onid yw yn gabledd ar Dduw'r cyfiawnder i ddywedyd ei fod wedi cau ffordd iachawdwriaeth yn erbyn pawb dynion am fod Adda wedi bwyta darn o afal ar gais ei wraig ? Onid yw yn *insult* i'r dealldwriaeth dynol geisio gan ddyn gredu fod y Duw doeth a da, fod y Tad goreu, wedi cospi ei Fab anwyl a diniwed am bechod nad oedd yn euog o hono, fel y galluogid ei blant i ddyfod yn ol i ffordd iachawdwriaeth, yr hon oedd wedi ei cholli iddynt, cyn eu geni, nid trwy un pechod o'r eiddynt eu hunain, fel yr oeddynt yn agored i gospedigaeth dragwyddol. Nid oes mewn peth fel hyn ddim rheswm na synwyr, ddim cyssondeb na chyfiawnder. Carwn wybod pa Salmau a gyfeiriant at Iesu Grist mewn geiriau diamwys, ac ato fel Duw tragwyddol. Ni fu yn y byd erioed y fath ffasiwn ymresymu ag sydd gan rai Cristnogion. Beth ddaw o Gristnogaeth y bobl hyn os na ddarfu i Adda fwyta'r afal—os na ddarfu i Moses ysgrifenu Genesis—os na ddarfu i farwolaeth ddyfod i'r byd trwy Adda—os nad yw tystiolaeth daeareg a Darwiniaeth yr hyn yr haerant hwy eu bod ? Mae yr holl adeiladwaith—y cynllun cadw *included*—mewn perygl o syrthio fel *pack of cards!* S. N. S.

Fe ochelir dyn ceintachlyd gan bawb, tra mae'r dyn hapus yn dynfaen yn mhob cyfeiriad ac yn dwyn melusder a goleuni i bob cymdeithas.

Y CRWYDRYN.

Yr oedd gan y crwydryn bychan adgof gwan am gartref, er nas gallai ei osod mewn geiriau, gan mor welw y deuai yr adgof iddo.

Megys godewyn o dês yn nyfnder y goedwig yn yr Haf, ymlithrai meddyliau am fam deg ei golwg yn groes i'w fywyd unig, a thrwy oriau meithion y ddystaw nos deuai llais gan alw yn dyner, "Willie, 'machgen I, dere adref."

Lladratawyd ef oddiar ei fam weddw gan haid o *gipsies* pan oedd yn ieuanc iawn, a phan oedd yn mhoethder twymyn, gadawyd ef ar drothwy ty mawr Mr. Brown. Caled oedd ei fywyd gyda'r *gipsies*, ond pan gymmerodd Brown ato "am yr hyn a dalai," ac wedi i'r wraig dyner, famol, farw, chwerw iawn fu ei fywyd. Gorfodid ef i wneyd gwaith rhy drwm a rhy anhawdd i blentyn fel efe, ac os methai, curid ef yn annynol gan ei feistr llym. Gosodid ef i wneyd gwaith ag oedd ei nerth plentynaidd yn annigonol ar ei gyfer; ac un diwrnod ymdorodd ar ei feddwl weledigaeth o'r hyn oedd yn bossibl iddo.

"'Rwy'n myn'd—yn myn'd—i redeg 'ffwrdd," sibrydai yn gryglyd. "Efallai y caf afael yn mam."

A thrwy awyr foglyd yr Haf nofiai rhywbeth tebyg i ysprydoliaeth: yn felus ac yn dyner y deuai, "Willie, fy machgen."

"Duw a'm helpo i ddianc oddiwrth Mr. Brown," gweddïai y plentyn, a chychwynodd i'w daith.

Gwenai yr wybr lâs uwch ei ben, canai yr adar yn llawen yn y coedydd yn ymyl y ffordd, ac ymddangosai pobpeth yn falch ei fod ef wedi cyrhaedd cyn belled. Yn mlaen ac yn mlaen yr elai tua'r ddinas; elai y dydd yn boethach, a churai poen yn ei ben. Rhaid fod y ddinas gan' milldir o dy Mr. Brown; clywsai mai deg milldir oedd, ond credai ei fod wedi myned yn mhellach nâ hyny yn awr. Curai ei ben yn druenus, ac yr oedd ar newynu. Ond nid oedd hyn, serch hyny, hanner cynddrwg â chael ei fflangellu bob nos.

Daeth swn olwynion i'w glustiau. A oedd Mr. Brown yn dyfod ar ei ol? O!'r anwyl! Ond na—gwraig dyner oedd yno mewn cerbyd, yr hon a arosodd yn ei ymyl i ofyn, "A garech chwi ddod i'r cerbyd? Yr ydych wedi blino hyd farw, 'machgen bach I."

"Ydwyf, mam, yr wyf bron marw," ebai Willie yn wan, "ond rhaid i mi gyrhaedd y ddinas cyn nos."

"Wel, yr wyf fi yn myned tuag yno," ebai y foneddiges. "Yr wyf yn byw yn y ddinas."

Aeth Willie i'r cerbyd, a gollyngodd hi y *curtain* i lawr dros y ffenestr yr ochr yr eisteddai efe, i gadw yr haul allan ac i'w wneyd ef yn gysurus. Ar ol edrych ar y plentyn yn ofalus am amryw funydau, gofynodd y foneddiges a oedd efe yn dianc oddiwrth rywun, neu a oedd rhywun wedi ei daflu dros y drws.

Dechreuodd y plentyn lefain. "'Rwy'n rhedeg 'ffwrdd, m'am," addefai; "ond mae Mr. Brown yn fy chwipio mor enbyd—'alla' I ddim aros. O! caraswn weled fy mam!"

Taflodd y foneddiges ei braich am dano yn fwyn. "Na hidiwch," meddai. "Peidiwch llefain. Am beth mae efe yn eich chwipio?"

"Am na allaf wneyd digon o waith," ebai y plentyn.

"Pwy yw Mr. Brown—eich ewythr?" gofynai y foneddiges.

"Nage, m'am: efe yw'r dyn yr wyf yn byw gydag ef, ac mae fy mam draw yn rhywle yn mhell, nas gwn b'le. Ac O! mae fy mhen ar dori!" A rhoddodd ffrwd arall o ddagrau derfyn ar ragor o eiriau.

"Dyhiryn drwg yw ef," ebai'r wraig, "ac ni cha eich gweled mwyach os gallaf I help. Dewch, pwyswch eich pen ar fy arffed, a gorphwyswch."

Dododd Willie ei ben bychan, oedd ar dori gan gur, ar ei glin, ac yn fuan cysgodd, tra y tynai y wraig dynergalon ei llaw dros ei wallt modrwyog, a myfyriai.

Pan y dihunodd Willie yr oedd yn cael ei godi o'r cerbyd gan ddyn â gwyneb hawddgar, a dywedai y foneddiges, "Cymmerwch ef i fewn, a rhowch iddo rywbeth i'w fwyta. Plentyn bychan yw ef y ces I afael ynddo ar y ffordd—amddifad digartref."

Yr oeddent yn garedig dros ben iddo, ac yr oedd y bwyd blasus a ddodasid ger ei fron yn ambeuthyn iddo.

"A ydyw eich pen yn curo 'nawr?" gofynai y foneddiges wrth ei osod yn ei wely esmwyth dros y nos.

"Nac yw, m'am. A wnewch chwi 'mo 'nghusanu I fel yr arferai mam wneyd ar adeg gorphwys?" ebai yn awyddus.

"Gwnaf, fy mhlentyn," meddai. "Nid oes bechgyn bach wedi bod genyf er's cy'd o amser nes yr wyf yn annghofio y ffordd i'w dodi yn y gwely." Ac yr oedd tôn o dynerwch yn ei llais, yn llawn o ddagrau.

"Beth yw eich enw?" gofynai, tra y cusanai ef ac y dirwynai gwrlyn o'i wallt gylch ei bys wrth eistedd ger ei wely.

"Willie, 'rwy'n meddwl."

"Yr ydych yn meddwl! Ai ni wyddoch, blentyn? Beth yw eich enw arall—enw eich mam?"

"'Wn I ddim," meddai yn gysglyd, "dim ond Willie, 'rwy'n meddwl. Galwai mam fi yn 'Willie 'machgen I,' ond pan y c'lymai y bobl galongaled hyny y llian dros fy ngenau ac y cymmerasant fi i'r coedwigoedd—wel, yr wyf wedi annghofio y gweddill."

"Eich cymmeryd 'ffwrdd?" dolefai y wraig. "Pa'm, tybiais mai Mr. Brown oedd yn eich cadw?"

"Ie, m'am: pan yr ês yn dost, gadawsant fi ar drothwy Mr. Brown, ac yr wyf wedi byw yno tua dwy flynedd."

Daeth edrychiad dyeithr, gofidus, i'r gwyneb mamol tra yr edrychai i lawr ar y plentyn blinedig, yr hwn a syrthiodd i gwsg gyda'r gair diweddaf yn dyferu oddiar ei wefusau. Aeth y foneddiges ar flaen ei thraed allan o'r ystafell i'r ystafell nesaf, a chan dynu allwedd fechan o'r mur, hi a ddadglodd flwch, a mwmialai rhyngddi a'i hunan, "A yw hi yn bossibl? 'Rwy'n synu ai efe yw?"

Ar ol chwilio am ychydig funydau, cymmerodd i fyny bapyr â golwg wedi ei lychwino dipyn arno, ac aeth yn ol at erchwyn gwely y crwydryn bychan.

Gan droi at y papyr, dywedai, "Collwyd: crwtyn bychan pedair blwydd oed, gyda gwallt gwineu, modrwyog, a llygaid duon mawrion, ac mae ar ei fraich chwith, ychydig uwchlaw y benelin, fan geni—angor fechan goch. Ei enw yw Willie Jenkins, a chan mai efe yw unig blentyn ei fam weddw, teimlir ei absenoldeb yn chwerw iawn."

"'Roeddwn wedi annghofio am y man geni," ebai ar golli ei hanadl, a chan benlinio wrth y gwely, a dattod ei lawes, torchodd hi uwchlaw yr elin. Yno, yn sicr ddigon, fel y desgrifiasid yn y papyr, oedd yr angor fechan goch. "Clod i Dduw!" meddai, tra y treiglai y dagrau gloewon i lawr ei gruddiau. "Plentyn Winifred yw,' a chusanai ef yn ei llawenydd.

Symmudodd y plentyn yn ei gwsg a sibrydodd, "Mam."

"Cei, 'machgen I—cei fyn'd at dy fam yfory," ac aeth i lawr i'r grisiau gyda gorfoledd mawr yn pelydru yn ei gwynebpryd.

"Dafydd, Dafydd," llefai, gan ysgwyd braich y gwr oedd yn hepian yn y gadair freichiau. "'Rwy' wedi cael gafael yn mhlentyn Winifred," ebai yn llawen, ac yna, mewn ffordd ddigon clogyrnog, dywedodd wrtho holl hanes y plentyn.

Aethant eill dau at wely Willie, a llawenychasant drosto. Hyd yn hwyr y nos eisteddasant gerllaw yr un bychan, a chynlluniasant y modd i dori y newydd da i'r chwaer weddw dranoeth.

Yn mhen deuddydd cyrhaeddodd Eliza a'i gwr y pentref bychan lle y trigiannai y weddw, a chyda Willie rhyngddynt, troisant i heol ychydig allan o dwrf masnachol y lle, a chyfeiriasant eu camrau at fwthyn destlus wedi ei guddio gan lwyni o goed prydferth.

Tywynai goleu gwelw yn yr ystafell wely fechan, ac wrth edrych rhwng y cauadleni gwelent y fam ar ei deulin wrth y gwely, a'i phen yn gladdedig yn y gobenydd, ac hawdd oedd canfod ei bod mewn gweddi ddwys.

"Ewch at mam!" sibrydai Eliza rhwng ocheneidiau o orfoledd cyffrous, ac ymwthiodd Willie drwy y drws isel. Dynesodd y plentyn bychan at y ffigwr oedd ar ei gliniau, a thaflodd ei freichiau am ei gwddf, a sisialodd "Mam."

Edrychodd y gwyneb gwelw, blinderog, i fyny mewn syndod am eiliad; yna, daeth pelydryn o orfoledd, nefol yn ei dremiad, dros ei gwyneb teneu, megys goleuni yr Orsedd Dragwyddol, a chan wasgu y plentyn at ei chalon, cusanodd ef mewn dedwyddwch dystaw, yr hwn yw y dyfnaf a'r melusaf o bob dedwyddwch. Yna, gan godi ei llygaid, ag oeddynt yn ddall gan ddagrau, i'r nefoedd, dywedodd, "Arglwydd, 'rwy'n diolch i Ti: mi wyddwn y gwnaet Ti, yn dy amser da dy hunan, ddanfon fy anwylyd yn ol i mi."

"Ie, mam; eich Willie chwi wyf fi," ebai y plentyn. "Modryb Eliza a fy ewythr Dafydd a'm dygasant yma, am fod yr Iachawdwr am iddynt, a dyma nhw."

A chan wasgu ei phlentyn at ei mynwes, hi drodd i gwrdd â gwynebpryd llawen ei brawd a'i wraig.

Y CYFARFOD CHWARTEROL.

Cynnaliwyd Cyfarfod Chwarterol yr Hydref yn Hen Dy Cwrdd Aberdar nos Fercher a dydd Iau, Hydref yr 2il a'r 3ydd. Arweiniwyd yn y rhanau defosiynol nos Fercher gan y Parch. J. Hathren Davies, a phregethwyd gan y Parch. W. J. Phillips, Nottais, yn Saesneg, a chan y Parch. Thomas Thomas, Pantydefaid, yn Gymraeg.

Boreu dydd Iau dechreuwyd gan y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach, a phregethodd y Parch. Owen J. Jones, Caerdydd, yn Saesneg. Pregeth dda ydoedd, un alluog ac adeiladol; ond yn sicr, yn cynnwys rhai pethau nad oeddynt yn gydfynedol â syniadau neb efallai yn bresenol, ond llawer mwy ag y gallai pawb ddywedyd "Ie" ac "Amen" iddynt. Annogai y gweinidogion i weithio yn fwy yn y cyfeiriad bydol, yn lle treulio eu hamser, fel y gwnai llawer o dduwinyddion y dydd, yn hollti blew athrawiaethau. Dylent drafod pynciau cymdeithasol y dydd, a cheisio, trwy offerynoliaeth celfyddyd, cerddoriaeth, &c., wneuthur rhywbeth i ddyrchafu tôn neu archwaeth y dosparth gweithiol, ac felly fod mewn effaith yn llygaid i'r deillion ac yn glustiau i'r byddariaid.

Yn absenoldeb y Parch. W. J. Davies, Llandyssul, o herwydd afiechyd, traddodwyd y bregeth Gymraeg gan T. T. yn hwyliog iawn. Ei destyn oedd Jeremiah vi. 16. Pan oedd yn desgrifio yr hen lwybrau, gwelsom lawer mewn dagrau.

Yn y prydnawn dechreuwyd gan Mr. Phillips, Nottais, ac wedi pennodi gweinidog y lle i'r gadair, galwyd ar T. T. i ddarllen ei bapyr ar "Paham y dylai yr Undodiaid gadw ar wahan oddiwrth y sectau poblogaidd?" Nododd y gwahanol bynciau a'n rhanant. Nid yw yr ymraniad yn un unochrog. Ni allai y sectau ein groesawu ni. Gwir fod rhai eglwysi yn derbyn ac yn cadw mewn cymmundeb rai yn dal athrawiaethau Undodaidd, ond methai Mr. T. ddeall sut yr oedd y cyfryw Undodiaid (?) yn gallu cyfiawnhau eu safle i foddlonrwydd eu cydwybodau. Rhenir y pleidiau uniawngred ar bynciau bychain a dibwys iawn yn ein golwg ni, ond mae y gwahaniaethau rhyngom ni a hwythau yn fawrion ac yn bwysig—pa un a yw Duw yn hanfodi yn dri neu yn un, pa un ai Duw i'w addoli neu ddyn i'w barchu a'i efelychu oedd yr Iesu, &c. Methai Mr. T. ddeall sut y gallai y ddau barti gydaddoli yn rheolaidd gyda'u gilydd, heb brofi yn anffyddlon i'w cydwybodau ac aberthu eu hargyhoeddiadau crefyddol i'w dymuniad am boblogrwydd. Ofnai efe y ffug ryddfrydiaeth nad oedd yn talu gwarogaeth ddigonol i awdurdod egwyddorion.

Aeth Mr. J. J. George i raddau dros yr un tir, gan gyfeirio at "Undeb y Byd Crediniol" *(Unity of Christendom)* fel breuddwyd mor ansylweddol â'r cais i ddwyn yr holl fyd dan un *climate*. Cyfeiriodd at y llythyrau oeddynt newydd basio rhwng Archesgob Caergaint a Llywydd yr Undeb Cynnulleidfaol; oddiwrth y cyfryw lythyrau yr oedd yn amlwg fod yr holl aberth i fod ar un ochr i gyd. Yr oedd yr un anhawsder rhyngom ninau a'r eglwysi iawnffyddol. Ni allai Undodwr gydaddoli yn rheolaidd mewn capel lle y clywai ei hun yn cael ei ddedfrydu i golledigaeth dragwyddol.

Tybiai Mr. Phillips fod y siaradwr olaf wedi dywedyd rhai pethau celyd am y rhai a addolant yn y capelau uniawngred. Dymunai efe gan hyny osod gair i fewn yn erbyn culni crefyddol. Teimlai fod tuedd i osod gwahanfuriau uchel i ranu yr enwadau, tra y carai efe weled y cyfryw, os nid yn cael eu symmud ymaith yn gyfangwbl, o leiaf yn cael eu gostwng yn fawr. Gwir ein bod yn gwahaniaethu yn fawr oddiwrth yr enwadau poblogaidd. Ein pynciau sylfaenol ni ydynt dadoldeb Duw, brawdoliaeth yr Iesu, ac fel canlyniad brawdoliaeth dyn, iachawdwriaeth trwy garacter, a dadblygiad yn y byd arall.

Gofynodd Mr. Evan Jones (Gas Office),—Beth oedd safle yr Undodiaid mewn perthynas i wyrthiau, ac yn neillduol yr hyn a eilw y Sais yn *immaculate conception*, ac adgyfodiad Crist ?

Nid oedd Mr. Hathren Davies yn credu yn un o honynt, [Nid wyf yn credu i Hathren ddweyd hyn.—Gol.] ac mewn perthynas i'r pwnc cyffredinol teimlai ein bod wedi cael gormod o'r un ochr. Teimlai fod cryn dipyn o gulni o'n tu ni ar brydiau Gwir fod rhagfarn mawr yn ein herbyn, ond yr oedd yn lleihau. Bu amser pan yr oedd dynion a ddymunent gladdu eu meirw wrth y capel lle yr oedd efe yn gweinyddu, yn cludo'r cyrff dros ben y wal yn hytrach na'u dwyn i'r capel.

Fotiwyd y gweinidog allan o'r gadair a cheisiwyd ganddo lefaru. Ystyriai y pwnc yn bwysig, ond dylid cofio fod geiriad y pwnc yn galw am bwysfawru y nodau gwahaniaethol. Yr oedd pynciau ereill a mwy pwysig y cydunent yn eu cylch. Credai fod enwadaeth ar y cyfan yn fendith, nad oedd Duw erioed wedi bwriadu iddynt gyduno yn mhob peth ; a pho fwyaf gonest y byddem, mwyaf tebyg y byddem o wahaniaethu. Etto, yr oedd llawer o bynciau y gallem gydweithredu arnynt. Credem oll yn modolaeth a pherffeithrwydd Duw, ond fel Undodiaid gosodem lai o bwys na rhai ar rifyddiaeth neu *arithmetic* y Duwdod—pa un a oedd yn hanfodi yn un neu yn dri. Credwn yn Iesu Grist fel athraw ac arweinydd, yr athraw a'r arweinydd goreu trwy fyd o amser i'r byd mawr tragwyddol. O berthynas i'r gwyrthiau yn gyffredinol, yr oedd Undodiaid yn gwahaniaethu. Yn bersonol yr oedd efe yn credu yn y gwyrthiau—yn ngwyrth yr adgyfodiad. Yna, aeth Mr. Jones i fewn yn fanwl i'r cyfnewidiad mawr a gymmerodd le yn yr Apostolion wedi adgyfodiad Crist, ac nid oedd yn gwybod am un esponiad o'r cyfnewidiad ag oedd mor naturiol ac mor debygol a'r un a roddid yn y Beibl. Wedi cyffwrdd ag ysprydoliaeth a'r bywyd dyfodol, cyfeiriodd at y llythyron oeddynt yn ymddangos yn wythnosol yn y *Merthyr Express*, a dywedodd mai'r perygl mawr ar dymhor o gyfnewidiadau cyflym oedd, i ddynion, ac yn enwedig dynion ieuainc, wrth golli eu hen angorfeydd, ddrifftio na wyddant i b'le. Bydded iddynt, nad beth a wnaent, geisio glynu wrth y gwirioneddau mawrion oeddynt anwyl i'r holl fyd—Duw, dyledswydd, ac anfarwoldeb.

Terfynwyd drwy weddi gan Mr. Lloyd.

Yn yr hwyr darllenodd a gweddïodd y Parch. J. J. George, a chafwyd dwy bregeth etto—un gan Davies, Cefncoed, a'r llall gan T. T.

Trodd y cyfarfodydd allan yn llwyddiant perffaith—yr oedd y llefarwyr ar eu goreu, a'r cynnulliadau yn lluosog ac yn wrandawgar. Pen-

derfynwyd fod y cyfarfod nesaf i fod yn Ngellionen, a'r Parch. Henadur John Davies, Alltyplaca, i bregethu. Heblaw y gweinidogion crybwylledig eisoes, gwelsom yn bresenol yn un neu yr oll o'r cyfarfodydd Mr. Fisher Jones, gweinidog newydd Gellionen, Mr. W. E. George, myfyriwr, a'r Parch. J. Grawys Jones, Annybynwr.

CARTREF.

Hoff, hoff yw cartref eu i fyw;
  Mae'n denu dyn yn ol o'i daith;
Y melyn-ddu a'r gwyn ei liw—
  Yn ol i dref yw tôn eu hiaith;
Er fod gofidiau blin ac erch
  Tu fewn i drothwy cartref mad,
Y mae rhyw lawer mwy o serch
  O fewn i'r annedd nag o frad.

Mae cartre'n swynol iawn i'r fron;
  Er siomiant a gofidiau gant,
Mae'n nefoedd ar y ddaear hon
  O'i fewn yn nghwmni gwraig a phlant;
Y gweithiwr gwan, 'rol gwaith y dydd,
  O fewn ei gartref ca fwynhad
O bob danteithion goreu sydd,
  A gwir ddyddanwch i'w fron fad.

Y plant, o gylch y tân mor llon
  Yn chwareu heb na phoen na braw,
Sy'n ymlid blinder 'ffwrdd o'r fron,
  Wrth wel'd digrifwch ar bob llaw;
Cynghorion mad fy nghares fwyn
  Sy'n gwneyd fy mwth yn haddef hedd;
Hen gartref hoff sy'n dda i ddwyn
  'R afradlon 'nol 'gael rhan o'r wledd.

Er chwilio'n ddyfal dros y byd,
  Er myned dros y mor yn mhell,
Ni cheir un breswyl byth mor glyd,
  Byth ni ddymunaf un sydd well;
O fewn fy nghartref dedwydd caf
  Fyfyrio ar weithredoedd Duw,
A thrwy ymdrechu caru'm Naf
  Caf gartref gwell i fythol fyw.

T. T. (Gwenog).

NODYNAU GWASGAROG.

Y LLYFR EMYNAU A THONAU.

Yn hollol groes i'm dymuniad, yr wyf fi yn cymmeryd rhan yn y ddadl ar y pwnc uchod. Ereill sydd wedi gosod yr angenrhaid arnaf. Darfu i rywun, dan ffugenw wrth grws, ddywedyd yn y *South Wales Daily News*, fod emynau yn Llyfr R. J. Jones yn annghysson a'r ffydd Undodaidd. Mewn rhifyn diweddarach ymddangosodd y llythyr canlynol :—

"Sir,—Will you oblige me by letting me ask your keen-scented correspondent who writes anonymously in your Monday's issue, which are the hymns in my book that are 'not in harmony with the Unitarian belief?' If he will kindly do so over his own signature, the Unitarian public will know who the modern heresy-hunter is, and I shall be able to form some idea as to the competency of the gentleman to set up a standard of Unitarian belief, a thing hitherto unknown and certainly unrecognized in our denomination.

"*Aberdare, Aug.* 26, 1889." "R. J. Jones."

Nid oes dim ateb hyd heddyw wedi ei roddi i'r cais uchod ; ond yn Ymofynydd Hydref, tud. 233—4, y mae llythyr *ag enw* Thomas Lewis, Llandyssul, wrtho, yn cynnwys y geiriau hyn :—"Mae swn Calfinaidd i'w gael yn y llyfr emynau presenol ; felly, dyna un rheswm dros gael llyfr emynau newydd." Yn awr, yr wyf yn dymuno galw ar Mr. Lewis i brofi ei gyhuddiad a nodi allan y cyfryw emynau. Nis gwn I am un emyn o'r fath ; ond feallai fod Mr. Lewis yn gwybod yn well na mi beth yw Calfiniaeth.

Yr wyf yn deall fod cyhuddiadau yn parhau i gael eu taenu am danaf finau yn bersonol : 1. Fy mod yn erbyn y mudiad newydd ; 2. Dywedir y buasai y peth yn *all right* pe buaswn I wedi fy mhennodi yn olygydd, ac y buasai cantorion yr H.D.C. wedi pleidleisio gyda'r mudiad yn lle yn ei erbyn. Yr wyf yn gwrthdystio yn erbyn y fath gyhuddiadau ac yn herio neb i brofi fod rhith o sail iddynt. Darllener y ddadl yn yr Ymofynydd (233), ac fe welir mai yr hyn oeddwn I yn anfoddlon iddo oedd, ymgymmeryd a'r draul a'r atebolrwydd o ddwyn y fath lyfr allan fy hunan. Eglurais hyny yn y cyfarfod chwarterol yn y Cwrtnewydd, ac nid wyf yn ei ystyried yn garedig ar ran y brodyr i ddwyn y cyhuddiad gerbron drachefn. Am yr ail gyhuddiad nid yw ond eiddo un yn "tynu bwa ar antur." Y mae digon yn yr H.D.C. yn barod i ddywedyd na wnes I ddim i beuderfynu teimlad y cantorion na neb arall yn y cyfeiriad yr aethant. Ni wyddwn I fod y pwnc i gael ei ddwyn gerbron, ac ni ddywedais air arno nes oedd pawb ereill bron wedi siarad. Drwg genyf fod dan orfod i ddwyn materion personol fel hyn o flaen y cyhoedd. R. J. J.

Mr. Gol ,—Ymddangosodd erthygl ar dudalenau y rhifyn diweddaf o'r Ymofynydd dan y pennawd uchod gan Mr. Thomas Lewis, Llan-

dyssul, yn yr hon y gwneir cyfeiriadau personol ataf fi, am i mi, mae yn debyg, ysgrifenu fy marn i'r YMOFYNYDD ar y pwnc dan sylw.

Yr oeddwn yn ysgrifenu yn y meddylddrych mai cyhoeddiad rhydd ydyw YR YMOFYNYDD, yn ymofyn am gyfiawnder a barn deg, yn ceisio goleuni a gwybodaeth mewn gwahanol gyfeiriadau, a chan fy mod yn teimlo cryn ddyddordeb yn y pwnc, ceisiais ysgrifenu ychydig am y pwyllgor a gynnaliwyd yn y Cwrt Newydd, yn nghyd â'm barn ar y gwahanol bwyntiau, gan ymdrechu, ar yr un pryd, cadw ar dir teg a rhesymol; ond fel y mae yn wybyddus, wele Mr. Lewis yn ei gymmeryd i fyny ac yn ei drin mewn modd awdurdodol ac mewn ysbryd annheilwng, trwy geisio iselhau cymmeriad brawd am ei fod yn credu yn groes iddo ef ei hun, a pha beth yw hyn ond ysbryd gormes ar ei orsedd yn dangos ei anfoddlonrwydd i ryddid barn, a hyny ar dudalenau y cyhoeddiad rhyddfrydig hwn.

Nid wyf yn eich beio chwi, Mr. Gol., am hyn, ond awdwr yr erthygl, am na fuasai yn arfer mwy o *synwyr cyffredin* nâ gweithredu yn groes i'w broffes. Yr oeddwn wedi arfer meddwl yn uwch am Mr. Lewis nâ hyn—ei fod yn ormod o Gristion i ymostwng i wawdio a dirmygu neb, yn enwedig heb achos, a'i fod hefyd yn ormod o Ryddfrydwr gonest i wadu "Rhydd i bob meddwl ei farn, ac i bob barn ei llafar," fel y ceisia yr erthygl hon wneyd, yr hyn sydd yn rhoddi lle i feddwl mai nid enw Mr. Lewis ddylai fod wrthi.

Yn awr, dywed (gan nad pwy ydyw yr awdwr) am lyfr tonau yn unig, "fod rhai i'w cael, &c., megys y *Bristol Tune Book*, &c., a rhyfyg o'r mwyaf ydyw meddwl y gellid cynnyrchu ei well hyd y nod pe byddai Mr. W. Williams, Llanbedr, yn cael ei bennodi yn olygydd." Pa beth a feddylia wrth hyn? Paham y rhaid iddo gymmeryd fy enw gwael I mewn cyssylltiad â dwyn allan y fath lyfr a hwn? Mae hwn yn un o'r casgliadau goreu y gwyddom am dano, wedi ei ddwyn allan gan gerddor medrus a galluog. Gan hyny, nis gall yr ysgrifenydd dan sylw feddwl dim arall ond gwawd a dirmyg, a hyny, gallwn feddwl, yn tarddu o rywfath o *jealousy* yn fy erbyn yn bersonol, trwy ddychymygu fy mod am ddyrchafu fy hun i'r "stol olygyddol," ond yr wyf yn sicrhau y brawd na fu meddwl o'r fath yn ymgynnyg i mi erioed, am y rheswm fy mod yn adnabod fy hun yn well nag y mae rhai yn adnabod eu hunain.

Yn mhellach yn mlaen etto dywed, "Felly, llyfr tonau ac emynau sydd yn angenrheidiol." Y mae yn wir fod mwyafrif y pwyllgor hwn dros y llyfr uchod, ond dylid cofio nad ydyw y mwyafrif dros rywbeth ddim yn profi bob amser ei fod yn iawn. Os felly, er enghraifft, dylasem oll fod yn Drindodwyr, o herwydd dyna gred y mwyafrif. Ond a gadael etto fod mwyafrif y pwyllgor yn teimlo yn sicr yn ei feddwl ei hun (ond gwn am rai wedi cyfnewid cyn ymadael â'r capel), a ydyw tynghed y llyfr wedi ei benderfynu? Gallwn feddwl hyny wrth y frawddeg uchod—fod y cwbl wedi ei benderfynu, ac mai llyfr o'r fath hwn sydd i fod, neu yn "angenrheidiol." Os felly, nid oes gan Undodiaid rhanau ereill o Gymru ddim hawl i ystyried y pwnc o gwbl, dim ond derbyn y llyfr fel y mae.

Y mae yn wir ofidus genyf fod brawddeg mor gamarweiniol â hon erioed wedi ei hanfon i'w hargraffu, o herwydd ni feddyliodd y pwyllgor i'r penderfyniadau fod yn ddim rhagor nag awgrymiadau, i gael eu cadarnhau neu eu gwrthod gan yr eglwysi ereill, ac os yr olaf, ymdrech yn cael ei gwneyd i ddyfod i gyd-ddealldwriaeth foddhaol yn y diwedd.

Un sylw etto cyn terfynu ar gynnwysiad y llyfr. Y mae yn gosod allan "nad yw cyssondeb pethau yn gofyn rhyw lyfr mawr at wasanaeth tua dau ddwsin o eglwysi." A oes eisieu llai o lyfr ar gynnulleidfa am ei bod yn un o ddau ddwsin nâ phe buasai yn un o ddau cant? Os ydych yn rhanu y tonau rhyngddynt, y mae; ond os ydyw pob cynnulleidfa yn annybynol, y maent ar yr un tir yn hollol, pa un bynag ai i enwad bychan ai i un mawr y perthynant.

Yn awr, gadewch i ni gael ymresymu yn deg os oes eisieu hyny—ac y mae hyny yn angenrheidiol, yn ol fy marn I, cyn y gellir dyfod i gyd-ddealldwriaeth. Hoffwn weled ein brodyr tua Sir Forganwg a manau ereill yn rhoddi eu barn ar y pwnc, ac yna bydd gobaith am ddyfod i wybod pa fath lyfr fydd yn angenrheidiol mewn gwirionedd.

Ydwyf, yr eiddoch yn gywir,

W. Williams.

[Yr ydym yn hollol o'r un farn a'n gohebwyr y dylai y ddadl hon fod yn rhydd o bobpeth sydd yn tueddu i fod yn bersonol. Os llyfr tonau, llyfr tonau a dim arall. —Gol.]

Mr. Gol,—Os goddefa eich gofod, carwn wneyd ychydig sylwadau ar yr hyn sydd wedi vmddangos yn Yr Ymofynydd mewn perthynas i'r Llyfr Emynau a Thonau. Byddai genym well gobaith am lyfr da pe cawsem awgrymiadau a barn gyffredinol ar y pwnc; ond cofied pawb mai ffolineb o'r mwyaf ydyw meddwl y cawn lyfr o'r fath trwy briodoli i'n gilydd ddybenion hunanol o herwydd y cyfryw, yn enwedig pan na fydd lle i feddwl dim o'r fath beth. Yr oedd yn ddrwg genyf weled yn llythyr Mr. Thomas Lewis, Llandyssul, yn Yr Ymofynydd diweddaf, ddim o'r yspryd a nodwyd, lle y dywed, "A rhyfyg o'r mwyaf ydyw meddwl y gellid cynnyrchu eu rhagorach hyd y nod pe byddai Mr. W. Williams, Llanbedr, yn cael ei bennodi yn olygydd." Credaf mai brawddeg anngharedig a hollol ddi-alw-am-dani ydyw yr uchod o eiddo Mr. Lewis, ac os mai lles y llyfr sydd genym mewn golwg, yn sicr, gallwn benderfynu fod yspryd cul a rhagfarnllyd yn wrthdarawiad nerthol yn erbyn pob llwyddiant.

Fel un yn adnabod Mr. Williams (a hyny, o bossibl, i raddau mwy nâ Mr. Lewis), credaf yn ddiduedd y gall Mr. Lewis gymmeryd y *cap* yn ol, gan na *ffitia* i'r hwn ei bwriadwyd, a gobeithiaf na *ffitia* i *neb* ychwaith, ond y byddwn oll yn feddiannol ar yspryd y gwr hwnw pan y dywedodd, "Ni ddaethum i gael fy ngwasanaethu, ond i wasanaethu."

Hefyd, dywed Mr. Lewis ei fod yn "methu deall sut y medr dyn fod yn arweinydd lled dda, ac etto, fod yn amddifad o wybodaeth o elfenau cerddoriaeth;" yn fyr, credaf y gellir cael llawer yn deall

teithi, cordiau, a chynghanedd cerddoriaeth, ac etto, ereill yn deall llawer llai yn gallu gosod cor ar waith gyda mwy o fedrusrwydd. Carwn yn fawr, a chredaf y byddai yn gaffaeliad i ni, fel eglwys, gael llyfr emynau a thonau, mwy felly na chael llyfr tonau yn unig; ond etto, os bydd yr emynau yn gyfyngedig iawn, gwell fyddai genyf gael llyfr da o donau, gan na fydd ein gwaith yn cyhoeddi llyfr cyfyngedig o'r fath yn ddim amgen newid ein hangen am angen arall, gan yr ystyriaf fod genym yn barod lyfr emynau da, ac nis gallaf gredu gyda Mr. Lewis ei fod gymmaint *out of date*, fel ag i fod eisieu cael rhyw *reform* neillduol. Ac hefyd, nid ydwyf yn gweled y bydd cael llyfr emynau a thonau yn gwneyd y rhagleni yn ddiangenrhaid, gan eu bod yn fanteisiol mewn llawer ystyr; gellir rhoddi rhagleni yn llaw llawer nad ydyw'r llyfr yn gyfleus iddynt, ac ar ddydd ein cyfarfod, gall llawer na fydd â rhan yn y gwaith, ond yn unig yn gwrando, gael llawer o fudd o'u cael, ac felly cyrhaedda ein cyfarfodydd eu hamcan yn uwch drwyddynt. Mae yr Annybynwyr a'r Bedyddwyr yn feddiannol ar lyfr emynau a thonau; er hyny, nid ydynt yn ceisio gwneyd heb y rhagleni.

Cyn terfynu hoffwn wneyd un sylw mewn cyssylltiad â golygu y gerddoriaeth. O'm rhan fy hunan, carwn weled tri o leiaf yn cael eu pennodi at y gwaith, yn lle un, am y rheswm fod amrywiaeth lawer o ran chwaeth, a hyny mewn un eglwys yn unig. Felly, wrth bennodi tri, buasai y llyfr yn fwy tebyg o gael derbyniad cyffredinol. Cofier na wneir yr awgrymiad hwn am fod genyf ddim yn erbyn y golygydd pennodedig, ond yn unig lles y llyfr sydd genyf mewn golwg.

Fel ag i gael llyfr gwasanaethgar, mae yn ofynol i ni geisio gweled y manteision a'r anfanteision fyddant yn mhob *plan* a ddaw dan sylw, ac yna mae genym obaith am lyfr da—llyfr na fydd eisieu myned i'r drafferth yn fuan i edrych am ei well. L. D. Jones.

Llanbedr.

Mr. Gol.,—Yn Yr Ymofynydd am Hydref, tudalen 235, mae dau lythyr yn werth eu cadw ar glawr. I bwy y maent o werth? Nid i'r Cymro uniaith. Peth rhyfedd, os ydynt o werth, na cheisiasid eu hys grifenu yn iaith Yr Ymofynydd. Er cymmaint o ganmol sydd ar y Iaith Gymraeg, a hyny gan ddysgedigion, paham y rhaid dodi y peth sydd o werth yn y laith Saesneg? Cofiwch am y Cymro, gyfeillion.

Hefyd, mae peth arall ar fy meddwl. Mae y pedwerydd canrif ar bymtheg yn cael ei alw "Yr oes oleu hon." Wel, y mae dysg a chelfyddyd yn myned yn y blaen gyda chyflymdra mawr, ond paham y llenwir Yr Ymofynydd o fis i fis â gwaith y dynion da sydd wedi marw? Pob parch i'r meirw, ond 'allwn ni ddim dysgwyl pethau mawrion oddiwrth ein gweinidogion dysgedig sydd yn fyw ac wedi rhoddi ysgol ddyddiol heibio? Gwir ein bod yn cael ambell bregeth dda ar ol y cyrddau chwarter, ond mae eisieu rhagor o waith y byw. Sod.

[Yr ydym yn cyd-olygu yn hollol a'n gohebydd o barthed i'r ail achwyniad, ond beth sydd i wneyd? Yr ydym wedi appelio droion at y byw am help i wneyd ein cyhoeddiad bychan yn fwy llwyddiannus, ond yr appel i nemawr pwrpas. Rhaid myned am help lle y ceir ef yn weddol ddirwgnach—pe at y meirw.—Gol.]

Fel y canlyn yr ysgrifena cyfaill atom yn mherthynas i ymsefydliad y Parch. J. Fisher Jones fel gweinidog yn Ngellionen :—"Yn y *Christian Life* am y 12fed cyfisol darllenais fod y brawd ieuanc, Mr. J. Fisher Jones, wedi ymgymmeryd á gwaith y weinidogaeth yn Ngellionen fel olynydd y dysgedig a'r Parchedig W. J. Davies, yr hwn, mae'n debyg, sydd wedi ymsymmud i Geredigion, er colied nid bychan i Undodiaid Morganwg, yn mhlith y rhai y bu yn gweinidogaethu am lawer o flynyddau gyda chymmeradwyaeth a llwyddiant mawr. Yr wyf yn deall ei fod yn un o'r goleuadau dysgleiriaf yn awyr nen yr Eglwys Undodaidd yn Morganwg, a sicr y bydd iddo ddysgleirio gyda chymmaint tanbeidrwydd yn ffurfafen yr Eglwys Undodaidd yn Ngheredigion. Gobeithiaf y bydd Mr. J. Fisher Jones yn olynydd teilwng i weinidogion enwog eglwys barchus Gellionen, sef y Parch. W. J. Davies, y diweddar Barch. John Evans, a'r goleudyb ddiwinydd, y diweddar Barch. John James. Yr ydys yn y modd mwyaf calonog yn llongyfarch Mr. Jones ar ei bennodiad i eistedd yn nghadair y gwyr cedyrn uchod. Mae gan Mr. Jones lyfrgell rad a pharod—braint nad yw yn eiddo pob gweinidog ieuanc pan yn myned i'r weinidogaeth, oblegyd darfu i'r diweddar Barch. John James, yn ei ewyllys olaf, orchymyn hanner ei lyfrau i weinidog Gellionen dros y pryd (*for the time being*), a'r hanner arall i weinidog Pantydefaid a Chapelygroes. Wrth gipolygu y *catalogue* a ddangoswyd i mi yn ddiweddar gan gyfaill yn Nghymru, meddyliwn fod amryw o'r llyfrau, er yn hen, yn wir werthfawr. Mawr lwc i Mr. Jones; gwnaed ddefnydd priodol o honynt, a'r nefoedd a wlitho ar ei weinidogaeth yn Ngellionen."

Hydref 16*eg*, 1889.

EISTEDDFOD CAERFYRDDIN, 1819.

Yr oedd gwobr wedi ei chynnyg gan bwyllgor yr Eisteddfod uchod am yr englyn goreu i'r "Delyn Newydd-dant," a dyfarnwyd y wobr gan Iolo Morganwg i Gwallter Mechain am yr englyn canlynol :—

"Plethiadau tannau tynion—y delyn
I'r dilesg feddylion;
Odlau saint yw adlais hon—
Llais neu fawl llys nefolion."

Credai R. ap Gwilym Ddu fod yr englyn yn gyffredin a sathredig parth cynghanedd a syniad, tra na chynnyrchwyd erioed cyn hyny na byth wedi hyny englyn mwy gwreiddiol, mwy priodol i'r testyn, na mwy cywrain ei gynghanedd a'i odl, na'r un a ganlyn :—

"Peiriant i gerddor parawd,—areithfa
Yr wythfys a'r ddwyfawd;
Tery eithaf tri wythawd,
Eurllaes gorff yn arllwys gwawd."

Fel hyn y mae Pedr Fardd yn datgan siomiant y Gwyneddwyr ar y pryd :—

"Englyn i'r delyn wnai'r Du,
A gorchest oedd ei gyrchu ;
Eu rhwb arno rhoi'r beirniaid
Yn Nghaerfyrddin, blin fu'r blaid.
Gwylltio ar barch Gwallter bert,
A throi heibio waith Robert."

Mae yn debyg i Robert ddigio cymmaint, fel na ysgrifenodd byth drachefn i un Eisteddfod.

Y Geninen am Hydref, 1889.

Dyma weddi John Jones, y Regicide, un o'r rhai a lawnodasant ddedfryd marw Siarl y Cyntaf, pan oedd yntau ar gael ei osod i farwolaeth : "Y mae fy enaid yn hiracthu am danat ; yr wyt wedi agor trysorau dy gariad i'm henaid tlawd ; yr wyf yn dyfod atat, O Dad ! derbyn fi. A chofia am Loegr, cawoda fendithion arni ; na chofia bechodau ei phobl yn dy erbyn. O Dduw, gwna ein Prydain anwyl yn wlad y gwirionedd a dedwyddwch. Anfon angel dy oleuni i'w harwain hi a chofia am danaf finau yn yr afon hon ; bydd gyda mi wrth groesi, estyn dy freichiau im' cyfarfod ; mae f' yspryd yn llawn llawenydd, Dad Sanctaidd, o herwydd yr wyf wedi rhoddi fy hun i ti."

Cymru Fydd, Ionawr, 1889.

DIOLCH IDDO.

Arnom gweina Dwyfol Un, heb ei ofyn ;
Mae ei ras fel Ef ei Hun—yn ddiderfyn ;
Blodeu'r maes ac adar nef gedwir ganddo ;
Ond ar ddyn mae 'i gariad Ef ; diolch iddo !

Dysgwyl y boreuddydd wnawn mewn angenion ;
Ac fe dyr ag ephah lawn o fendithion ;
Gad y fendith ar ei ol wrth fyn'd heibio ;
Duw rydd eilwaith lon'd ei gol ; diolch iddo !

Ond mae bendith gyda Duw, gwell nâ'r cyfan ;
Bendith y bendithion yw,—dawiol anian ;
Am y bara bery byth heb heneiddio
Canu wnawn tra ynom chwyth, diolch iddo !

DYFED.

[*Allan o draethawd Ifan Afan ar "Emyniaeth Gymreig."*]

Manion a Hanesion.

RHAGDREFN Cymmanfa Gerddorol Undodiaid Dosparth Aberdar a Merthyr.—Caniatewch i mi ddywedyd fod emyn 22 yn cynnwys llinell wallus, sef y 4edd yn y pennill cyntaf. Ymddangosodd yr emyn gyda'r un gwall yn YMOFYNYDD Mawrth, 1889, tud. 68. Y mae yn hollol allan o le fel y mae. Darllener:—

Pan y rhana'r ddystaw rwyf
I mi'r ddystaw afon,
Ac ar lan dragwyddol wyf—
Beth am f' hen gyfeillion?
Ai yn ofer geisiaf fi
Fy anwyliaid hwnt i'r lli'.

R. J. JONES.

GELLIONEN.—Cynnaliwyd cyfarfod ymadawol i'r Parch. W. J. Davies, diweddar weinidog y lle uchod, nos Sadwrn, Medi yr 28ain. Llywyddwyd gan Mr. L. Hopkins (Cathelyd). Gwasanaethwyd yn y cyfarfod gan y cyfeillion canlynol:—Mri. W. Lewis, Pontardawe; D. James, Alltwen; Johnny Williams, D. Davies, John Hopkin, Miss Sarah Jane Lewis, Miss Jane Bowen, a Miss Mary Morgans, Craigtrebannos. Hefyd, gwasanaethwyd gan seindorf bres y lle dan arweiniad Mr. David H. Morgans. Dymunwn longyfarch y seindorf hon am ei chwareu meistrolgar y tro cyntaf y daeth allan yn gyhoeddus. Gwasanaethwyd yn hynod fedrus ar yr *harmonium* gan Miss James, Pontardawe. Cyflwynwyd anrhegion yn y ffurf o *metronome* a *silver pencil case* i Mr. Davies, fel arwydd o barch a dymuniadau da yr eglwys iddo. Cyflwynwyd yr anrhegion gan y Mri. Isaac Hopkin a John Lloyd, dau o ddiaconiaid yr eglwys, y rhai a draddodasant areithiau dyddorol a phwrpasol. Diolchodd Mr. Davies am danynt yn y modd mwyaf teimladwy. Cafwyd areithiau hefyd gan y llywydd a Mr. H. Morgans, Trebannos. Yn ystod y cyfarfod canwyd pennillion wedi eu cyfansoddi ar gyfer yr achlysur gan Mr. Enoch Richards (Perllanog), Clydach. Terfynwyd trwy i'r *band* chwareu,—"God save the Queen."—D.

YN YR YMOFYNYDD am Hydref, dywedir fod W. Thomas, Southampton, wedi talu yr holl draul am daflen David Thomas yn nghapel y Llwyn. Nid yw hyn yn gywir. Talodd cynnulleidfa y Llwyn ran fawr o'r draul.

Mae rhagdrefn Cymmanfa Ganu Undodiaid dosparth Merthyr ac Aberdar yn barod, ac yn nwylaw y cantorion. Mae yr argraffiad a'r ddiwyg allanol yn rhagorol, ac yn glod i'r argraffydd, ac hyderwn hefyd fod y cynnwysiad yn rhoddi boddlonrwydd gweddol gyffredinol. Gobeithio y ceir cymmanfa dda.

CWMBACH.—Yn ddiweddar, rhoddwyd gwyl de i aelodau Ysgol Sul y lle uchod, pryd y darfu i bawb fwynhau eu hunain yn dda. Yn yr hwyr, cynnaliwyd cyfarfod dyddorol iawn, i'r dyben, yn benaf, o gyflwyno tysteb i Miss Gwen Morgan, fel cydnabyddiaeth fechan am ei ffyddlondeb dihafal gyda phob mudiad yn yr eglwys. Siaradodd amryw yn wresog yn ystod y cyfarfod, a dygasant dystiolaeth uchel, ond nid rhy uchel,—i werth anmbrisiadwy gwasanaeth Miss Morgan. Hyderwn y ca Miss Morgan oes hir i fod mor ddefnyddiol etto yn y dyfodol ag y mae wedi bod yn y gorphenol.

DOWLAIS.—Hydref y 10fed, cynnaliodd y brodyr yn y lle uchod eu gwyl de flynyddol. Cafwyd hin deg, a lluaws mawr o ymwelwyr. Trodd yr oll allan yn unol a'n dysgwyliadau goreu.

Y mae Miss Williams, o Lundain, chwaer i Arthur J. Williams, Ysw., A.S., a derbyniwr cysson o'r YMOFYNYDD, newydd roddi mil o bunnau at addysg merched yn Mhrif Ysgol Caerdydd.

Mae rhagfarn a phleidgarwch Cymreig hwnt i ddychymyg. Nid yn unig rhaid i bob sect wrth ei llyfr emynau ei hunan, ond hefyd wrth ei llyfr tonau ei hunan, ac os bydd modd hyd y nod wrth ei chyfieithad ei hunan o emyn. Os bydd amryw gyfieithadau o emyn Seisnig, dewisir, nid wrth y *quality*, ond wrth blaid y person a'i cyfieithodd.

Nid wyf yn gwybod a oes, fel yr awgrymir, yn mharthau uwchaf ein hawyrgylch awel orllewinol barhaus, sydd yn cario gyda hi bob gronyn a gyfyd i'r uchder hwnw, ond yr wyf yn canfod, pan fo eneidiau yn cyrhaedd math o eglurder mewn amgyffrediad, derbyniant wybodaeth a chymhelliad uwchlaw hunangarwch. —*Emerson.*

Mae anadl o ewyllys yn chwythu yn dragwyddol trwy fydysawd eneidiau yn nghyfeiriad yr Iawn a'r Angenrheidiol.—*Emerson.*

Ysgrifena y Parch. W. James, B.A., lythyr i'r papyr Seisnig parthed trysorfa y dynion ieuainc. Mae'n debyg fod hon yn dra isel, ac appelia Mr. James am help tuag ati oddiwrth gyfoethogion yr enwad ac ereill.

Ymddengys oddiwrth y papyrau dyddiol mai olynydd y Parch. J. E. Manning, yn Abertawe, yw y Parch. W. A. Clarke, o Hinckley.

Yn ddiweddar, talodd Ysgol Sul Pantydefaid, ymweliad â'i chwaer ysgol yn Cwm-Sychbant, ger Llanwenog. Y Sul ar ol hyny, talodd Ysgol Cwm-Sychbant ymweliad â'r cyfeillion yn Capelygroes; a'r Sul ar ol hyny ymwelodd Ysgol Sul Capel Hafod (B) â Chapelygroes; felly, gwelir fod Capelygroes, yn ddiweddar, wedi bod yn ganolfan ymgynnulliad Ysgolion Sul. Nid gormod yw dweyd i'r ysgolheigion a'r athrawon wneuthur eu gwaith yn rhagorol. Yr oedd y canu hefyd yn dda.

PERYGL ADDYSG.—Wedi'r holl ymdrech am addysg beth ydym wedi ennill neu yn debyg o ennill? Gwneyd Cymru'n fwy Seisnigaidd, yn fwy materol, yn fwy anffyddol.—*Owen M. Edwards.*

I'r hen Gymry yr oedd tri pheth yn anmhossibl—sychu'r Werydd, dringo i'r haul, a dadfileinio Sais.

Mewn erthygl ddyddorol ar "Ddadblygiad Addysg Athrofaol yn Nghymru" yn *Cymru Fydd* (Mehefin, 1889), ceir sylwadau dyddorol ar D. Davis, Castell Hywel. Pri odolir yr erthygl arno yn y *Traethodydd* am 1848 i'r Parch. W. Pryse, Sylhet, a dywedir (gyda gradd o amheuaeth lle nad oes amheuaeth i fod) fod ymgeiswyr am urddau eglwysig yn cael eu hordeinio yn union-gyrchol o'r ysgol "hyd nes y daeth yr Esgob Horsley i Dyddewi yn 1785."

Nid yw pechod Adda yn gwneuthur neb heddyw yn bechaduriaid, ac ni ddichon cyfiawnder cyfrifol Crist byth wneuthur neb yn seintiau.

Dywedir fod y cofnodolion Pabyddol yn cael llawer o ddyfyrwch oddiwrth yr efelychiad o'r offeren (*mass*) a gafwyd yn ddiweddar yn Nghaerdydd.

75 miliwn oedd rhif y llythyron a drosglwyddwyd yn Mhrydain Fawr yn 1838; yr oeddynt yn 1,759 yn 1888.

Mae y gallu i ddarllen ac ysgrifenu yn unig yn lleihau y duedd at drosedd.

Dywed Esgob Exeter ei fod wedi dychwelyd llawer o Undodiaid at yr Eglwys, a'u hargyhoeddi o wirionedd athrawiaeth y Drindod a Duwdod yr Iesu. Carem wybod pa fath Undodiaid oedd y rhai hyn.

Mae'r byd yn llawer llai cyfeillgar nag oedd ugain mlynedd yn ol; un prawf o hyn yw ddarfod dyfeisio *note-paper* yn lle *letter-paper*. Mae gan bobl lai i'w ddywedyd wrth eu gilydd; ac y mae bychander y *note-paper* yn esgus i beidio dweyd ychwaneg. Dyma fe, meddai dyn, wedi llenwi'r *sheet*; beth a fynech chwi fwy? Ond hanner *sheet* yw'r papyr hwnw.—*Nicander*, 1857.

YR ORGRAFF.—Yr orgraff oreu yw'r hon fyddo debycaf i lafar gwlad, ac heb fod yn rhy gywrain ofalus i gadw mewn golwg y gwreiddeiriau; canys cymmer y rhai hyn ofal am danynt eu hunain bron bob amser sut bynag yr orgraffir. * * Pan adawir yr Eglwys, nid oes diwedd ar ymsectio; a phan adawir yr hen safon Fibl, nid oes dim diwedd ar amrywio'r orgraff. * * Ni chymmer y *wlad* mo'r hen safon am mai orgraff yr Eglwys ydyw: mae rhagfarn yn llawer cryfach na rheswm.—*Nicander*, 1875.

Marwgofion.

Awst 28, James Rees Jones, yn 29 oed. Mab ydoedd i James a Bariah Jones, Oxford Street, Aberdar, gynt o Benlan, Eglwys Fair, Sir Gaer. Yr oedd yr ymadawedig yn hanu o hen deulu enwog yn hanes Undodiaeth, oblegyd yr oedd yn ŵyr i'r diweddar Mr. James Phillips, Blaentrafle, un o ffyddloniaid Rhydyparc. Claddwyd ein cyfaill yn mynwent Rhydyparc.

Hydref 6, Benjamin Davies, Llythyrdy, Llanwnen, yn 24 oed. Yr oedd wedi treulio blynyddau bellach yn nghymmydogaeth Llanwnen, fel *assistant* yn y lle uchod, ac yr oedd ei foesgarwch a'i serchogrwydd didwyll wedi denu pawb i'w garu. Yr oedd yn ddyn ieuanc gwybodus, ac yr oedd bob amser yn hyfrydwch i gael treulio awr yn ei gwmni a chael siarad ag ef yn nghylch gwahanol bethau; a

chymmaint oedd y dyddordeb a deimlai braidd yn mhob mudiad, o ba natur bynag y byddai, fel y gallem feddwl nad oedd un gofid na thristwch byth yn cael lle yn ei fynwes. Ond y mae yn eglur nad oedd y cyfan yn amlwg i ni. Mae y byd yn llawn o ddirgeledigaethau, ac yn eu gwyneb nid oes gyda ni ddim ond bod yn ddystaw hyd nes y daw rhyw oleuni gwell. Claddwyd ef y dydd Mawrth canlynol yn mynwent Eglwys Llanybyther. Pregethwyd yn y ty gan D. E., Cribin, a gweinyddwyd wrth y drws gan Mr. Davies, Alltyplaca.

Hydref 12, yn 78 oed, yn Mountain Ash, ger Aberdar, yn 78 oed, Mrs. Salina Williams, gweddw y diweddar Edward Williams, Tir Hywel ap Ifor, Cefnpennar. Un o dylwyth y Toncoch oedd, a merch i'r diweddar Rees Evans. Rhyfedd y cyfnewidiadau y mae yr hen dad Amser yn eu heffeithio yn barhaus. Bu cystudd yr ymadawedig mor drwm, maith, a phoenus, am lawer o flynyddau, fel y bu yn hiraethu llawer am ddydd ei hymddattodiad yn mhell cyn i'r dydd hwnw ddyfod, a phan ddaeth yr oedd iddo gyflawn roesaw, a bu farw yn y gobaith cysurlawn o gael ailgwrdd mewn byd gwell â'i hanwyliaid sydd wedi ei blaenu ac yn aros, rai o honynt, ar ei hol. Bu yn aelod ffyddlon o'r Hen-Dy-Cwrdd, Heolyfelin, cyn sefydlu yr achos Undodaidd yn y Cwmbach yn y flwyddyn 1859, ac oddiar hyny hyd ei thranc. Nid oedd ei lle ond anaml iawn yn wag yn y cwrdd ar foreu Sul hyd nes i'w hafiechyd, o gylch deng mlynedd yn ol, ei goddiweddu, Gwnaeth ei rhan, nid yn unig drwy fynychu yr addoliad cyhoeddus hyd oedd yn ei gallu, ond hefyd drwy gyfranu yn ol ei gallu tuag at dreuliau yr achos yn y lle hyd y diwedd. "Hyn a allodd hon hi a'i gwnaeth." Y Mawrth canlynol claddwyd hi yn mynwent hen Eglwys Aberdar. Gweinyddwyd yn y ty cyn codi y corff gan weinidog yr Undodiaid yn y Cwmbach.

Hydref 12, bu farw yn ddisymwth iawn fel yr oedd yn brysio i gyfarfod y trên, Mr. Evan Griffiths, *architect*, The Poplars, Aberdar, yn 65 oed. Yr oedd yr ymadawedig wedi bod ar ei alwedigaeth yn y boreu yn Mlaenllechau, ac yr oedd ar fedr dychwelyd gyda'r trên canol dydd. Yn lle cymmeryd y trên yn Ferndale, fel y gallasai, meddyliodd y cerddai ryw filldir a hanner hyd yr orsaf nesaf, sef Tylor's Town. Ar yr heol cyfarchodd un Mrs. Dorothy Evans yn ol ei arfer, ac nid oeddynt wedi ymwahanu ond rhyw ychydig latheni pan y clywodd hi ef yn syrthio. Daeth y meddyg, Dr. W. Williams, ato yn fuan, ond ni allodd fod o un gwasanaeth—yr oedd yr elfen fywiol wedi diflanu. Yr oedd Mr. Griffiths yn enwog yn ei gelfyddyd, ac yn cael ei adwaen yn mhell ac agos. Perchid ef yn fawr, ac yn oreu gan y rhai a'i hadwaenent yn oreu. Ei ferch henaf yw gwraig y Parch. R. J. Jones, a'i ail ferch ydyw gwraig y Parch. George Evans, Chesterfield. Ei unig fab ydyw Dr. P. R. Griffiths, Caerdydd, ac y mae tair merch gartref gyda'u mam. Gwasanaethwyd ddydd yr angladd gan y Parch. J. J. George a'r Parch. W. James (Bethania). Numeri vi. 24—26.

Hydref 15, Mr. Thomas Thomas, Moss Row, Abernant, Aberdar, yn 61 oed. Yr oedd yr ymadawedig yn ddyn cryf a golygus iawn yr olwg arno, ond torwyd ef i lawr mewn byr amser. Yr oedd gyda'i waith ar y Sadwrn ac wedi gorphen y daith y Mawrth canlynol. Yr oedd yn meddu cymmeriad uchel. Dywedodd Mr. James Lewis, prif berchen gwaith Abernant, wrth ysgrifenydd y llinellau hyn fod ganddo ef bob amser syniad uchel am Thomas Thomas. Yr oedd yn ddyn gonest, a pherthynai i ddosparth o ddynion sydd bob amser yn brin—y dosparth sydd yn teimlo dyddordeb yn ngwaith eu meistr. Caffed y weddw unig a'r perthynasau oll deimlo gwenau y nefoedd yn yr amgylchiad prudd, a bydded llwybr eu hymdaith ddaearol yn wastad dan ei arolygiaeth Ef, yr Hwn yw priod y weddw a nedded y rhai a ymddiriedont ynddo. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan weinidog yr Hen Dy Cwrdd.

Hydref 18, Mr. David Botting, Clifton Street, Aberdar, yn 43 oed, gan adael gweddw a dau o blant (mab a merch) i alaru eu colled anadferadwy. Rhyfedd ydyw bywyd a'i ddirgelion, a'i ofynion a'i ddyledswyddau. Yr oedd y mab a'r ferch yn gorfod sefyll eu prawf dranoeth, fel *pupil teachers*, o flaen arolygydd ei Mawrhydi—hyny, neu fod ar eu colled. Yn sicr, yr oeddynt dan anfantais fawr; ond gobeithiwn y llwyddant, er eu mwyn eu hunain ac er mwyn eu mam. Claddwyd y Mawrth canlynol, gweinidog yr H.D.C. yn gweinyddu. 2 Cor. i. 3, 4.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.

Barn y Cyhoedd am George's Pills.

DYFYNIADAU O LYTHYRAU.

"Gwerthfawrocach ynt i mi nâ'r aur coeth,—arbedasant fy mywyd."

"Yr oedd pob meddyg yn ystyried fy iechyd yn ddiobaith, felly Syr, ar ol i bawb fethu, chwi a'm gwnaethoch yn holl iach."

"Clywais ganmoliaeth uchel i'ch Peleni, ond fy marn ddiduedd yw, na fynegwyd 'mo'r hanner."

"Cyn cymmeryd eich Pills nis gallwn gerdded gan y poen yn fy ymysgaroedd, ond yn awr, er fy mod yn 67 mlwydd oed, yr wyf yn teimlo fel pe na bawn ond 30."

"Yr ydwyf yn canmol eich Peleni wrth fy holl gwsmeriaid, oblegyd y maent yn wir dda."

"Ni welwyd meddyginiaeth fel yr eiddoch chwi erioed o'r blaen yn ein gwlad."

"Cynghorem bawb—o herwydd y ffug-beleni sydd yn y farchnad—i fod ar eu gwyliadwraeth pan yn prynu GEORGE'S PILLS."

"Yr oeddwn yn methu sefyll gan bendro, ac yr oedd *swashes* o ddwfr sur yn dyfod i fy ngenau. Ni chymmerais ond un blychaid o'ch Peleni cyn fy llwyr iachau."

"Yr oedd trymder anarferol yn fy nal ar ol bwyta, a chawn anesmwythder y nos gan freuddwydion brawychus; ac mae fy mhoenau erbyn hyn yn *things of the past.*"

"Er i mi wneyd aml brofion o alluoedd meddygon, yr oedd y cwbl yn ofer hyd i mi wneyd prawf o'ch Peleni chwi."

"Yr ydwyf yn dymuno gwneyd y gwellhad hwn yn hysbys er calondid i chwi, er lles i ereill, ac er clod i'r Goruchaf."

"Y mae llawer o siarad yma (California) am eich Peleni; mawr y lles y maent yn ei wneyd."

"Edrychwn ar eich Peleni fel rhai o'r pethau hyny ag ydynt yn angenrheidiol i gyssur a dedwyddwch teuluaidd."

"Nis gwn am un Feddyginiaeth yn Nghymru mewn cymmaint o fri, nac ychwaith wedi gwneyd cymmaint o ddaioni."

"Edrychir arnoch gan filoedd fel cymmwynaswr i'ch cenedl."

"Mae'n Feddyginiaeth rad, ryfeddol ei pharhad, effeithiol, syml, hawdd ei chael trwy holl ororau'n gwlad."

"Y mae yr Americaniaid yn meddwl y byd am eich meddyginiaeth, er gwaethaf eu rhagfarn yn erbyn pob peth Cymreig."

"After taking a few doses he passed no less than forty gall-stones."

"When I show them the *scores of stones* I have passed by taking your Pills, they are *struck dumb with wonder.* Seeing is believing."

"Your Pills a tonish the people here by their miraculous effects."

"Dyma un o'r bendithion mwyaf i ni, y dosparth gweithiol, a allasai Rhagluniaeth ei drefnu."

Ar werth drwy yr holl fyd, mewn blychau 1*s.* 1½*c. a* 2*s.* 9*c. yr un.*

Perchenog :—J. E. GEORGE, M.R.P.S., HIRWAIN.


INTERESTING FACTS FOR INVALIDS.
The experience of twenty years proves that no medicine for the cure of all the Disorders of the BOWELS, LIVER, KIDNEYS, and STOMACH, will bear comparison with GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS.
It is an important fact that these Remedies are patronised and highly recommended by EMINENT MEDICAL MEN, both in this country and America.
Many of the wealthy of the land give their time and money to supplying the afflicted poor in their neighbourhoods with these Pills. This fact speaks volumes in favour of these Pills.
Were all the Testimonials that have been received in favour of these Remedies printed, they would fill a volume of over a THOUSAND PAGES of the ordinary size.
There is not a civilized nation under the sun that has not experienced the HEALING VIRTUES of these Remedies. For many years they have held the FIRST PLACE in the world as a remedy for the above disorders.
It is the opinion of those best able to judge that a discovery of greater importance to suffering humanity than GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS has not been made in this century.
THOUSANDS have been cured by these Pills, and TENS OF THOUSANDS relieved of their pains; and many who have been pronounced hopeless have been THOROUGHLY RESTORED TO HEALTH by their use.
Sold in Boxes, 1/1½ and 2/9 (by Post, 1/3 and 2/10) each, by all respectable Chemists.
IMPORTANT CAUTION.—BEWARE OF SPURIOUS IMITATIONS.